



# Gwarchod Natur a Bioamrywiaeth – Crynodeb

## Papur Testun Rhif 1

### Cyflwyniad

Yn ei hanfod, bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o bethau byw sy'n bodoli mewn ardal benodol ac sy'n gwneud ein planed yn gyfanheddol. Mae cysylltiad agos rhwng hyn ac amrywiaeth daearegol (geoamrywiaeth) sef yr amrywiaeth o greigiau, mwynau, priddoedd, tirffurfiau a phrosesau naturiol sy'n tanategu bioamrywiaeth.

### Cyd-destun

Mae gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn cael ei gydnabod yn eang fel cyfrannwr hanfodol i gynaliadwyedd. Mae nifer o bobl yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd naturiol am sawl rheswm e.e. pleser, hamdden, ond mae hefyd yn darparu bwyd a deunyddiau.

Mae nifer o ffynonellau'n rhoi pwysau ar fywyd gwyllt megis datblygiadau newydd, dinistrio a dryllio cynefinoedd, llygredd dŵr ac aer a gollyngiadau nwyon a gwydr sy'n gallu arwain at newid yn yr hinsawdd a pheri i systemau naturiol weithredu'n llai effeithiol.

Mae cynllun gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn cynnwys mesurau sydd wedi'u hanelu at warchod bioamrywiaeth ym Mhrydain a fydd, yn ei dro, yn cyfrannu at warchod bioamrywiaeth byd-eang. Yng Nghymru ategir at hwn gan Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol sef 'Cymru Fyw' a'i brif nod yw "sicrhau fod gan Gymru ecosystemau sy'n fwyfwy gwydn ac amrywiol sy'n darparu buddion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol". Caiff y targedau yn y

dogfennau cenedlaethol hyn eu trosi yn gamau gweithredu ar lefel leol gan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Sir y Fflint.

Mae gan Sir y Fflint ddyraniadau gwarchod natur rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd sensitif sy'n darparu ar gyfer rhywogaethau prin megis madfall y tywod, y fôr-wennol fechan, y fadfall dŵr gribog a miloedd o adar hirgoes ar Aber y Dyfrdwy.

Mae nifer o safleoedd a chynefinoedd sydd heb eu dyrannu hefyd yn werthfawr o ran gwarchod natur ac maent yn elfennau allweddol o fioamrywiaeth y sir. Mae'r rhain yn cynnwys nentydd, pyllau a choetiroedd – yn arbennig rhai o darddiad hynafol lled-naturiol.

### Rôl y Cynllun

Mae gan gynllunio rôl i'w chwarae wrth warchod bioamrywiaeth. Un o'r prif amcanion yw gwarchod a gwella rhywogaethau a'u cynefinoedd sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol ac a allai fod dan fygythiad gan y datblygiad newydd.

Ni all y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) fod yn gwbl gyfrifol am ddiogelu ein bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae'r cynllun datblygu statudol yn darparu sail i wneud penderfyniadau cynllunio sy'n gallu darparu amgylchedd o safon.

Gall y CDLI nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd sy'n osgoi niweidio buddion gwarchod bywyd gwyllt a thrwy wneud hynny bydd yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy

Gall cynllunio positif sy'n integreiddio nodweddion megis coed, gwrychoedd a chyrrff dŵr arwain at ddatblygiadau o safon uchel a darparu cynefinoedd sy'n werthfawr o ran bioamrywiaeth. Gall hyd yn oed adeiladau unigol feithrin bioamrywiaeth, er enghraifft, ymgorffori blychau nythu artiffisial mewn ysguboriau sy'n cael eu trosi. Mae nodweddion megis toeau gwyrdd ar adeiladau diwydiannol yn ardaloedd clwydo/magu defnyddiol i adar hirgoes ar Aber y Dyfrdwy.

## Cynlluniau a Strategaethau Gwarchod Natur Allweddol

- Strategaeth y DU ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy (2005)
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)
- Strategaeth Amgylcheddol Cymru (2006)
- Polisi Cynllunio Cymru (2012)
- Nodyn Cyngor Technegol 5 Gwarchod Natur a Chynllunio (2009)
- Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru (2010)
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (1994)

## Problemau y bydd y Cynllun yn mynd i'r afael â nhw

### Diogelu Rhywogaethau

- Diogelu rhywogaethau gwarchoddedig

### Gwarchod Cynefinoedd

- Cynnal bioamrywiaeth drwy warchod cynefinoedd
- Sicrhau fod safleoedd dynodedig statudol yn cael eu gwarchod yn briodol
- Diogelu coed, grwpiau o goed ac ardaloedd o goetiroedd sy'n werthfawr o ran bioamrywiaeth
- Sicrhau fod camau gweithredu yn Sir y Fflint yn cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau rhyngwladol a chenedlaethol ar gyfer yr amgylchedd naturiol
- Rhoi ystyriaeth i bwysigrwydd cymharol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a

lleol wrth ystyried y pwys a roddir ar fuddion gwarchod natur

- Osgoi cyfyngiadau di-angen ar ddatblygiadau

## Gwella Buddion Gwarchod Natur

- Cynnwys mesurau sy'n gwella gwerth bioamrywiaeth mewn datblygiadau newydd

## Polisiâu / Cynigion Defnydd Tir Posibl

Mae gwarchod bioamrywiaeth wedi bod yn cael ei gynnwys mewn polisiâu cynllunio ar bob lefel ac mae hynny'n parhau i ddigwydd. Mae 6 polisi yn y bennod Bywyd Gwyllt a Bioamrywiaeth o fewn y CDLI. Mae'r polisiâu hyn yn parhau i gael eu hystyried yn berthnasol i Sir y Fflint wrth iddo edrych ymlaen at gyfnod nesaf y cynllun a'r CDLI. O ganlyniad rhagwelir y bydd y prif bolisiâu a chynigion yn ceisio:-

- Cynnal a chynyddu amrywiaeth a phoblogaeth rhywogaethau gwarchoddedig
- Nodi pob safle bywyd gwyllt dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol
- Darparu meini prawf yn seiliedig ar bolisi i ddatblygiadau sy'n effeithio ar safleoedd dynodedig
- Darparu ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth y tu allan i ardaloedd dynodedig h.y. cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig yn lleol
- Sicrhau fod pob safle arall posibl wedi'u hystyried cyn dyrannu tir a allai gael effaith andwyol ar fioamrywiaeth
- Defnyddio rhwymedigaethau cynllunio neu Ardal Seilwaith Cymunedol i ostwng neu ysgafnhau effeithiau niweidiol ar warchodaeth natur
- Caniatáu cynigion sy'n gwella bioamrywiaeth drwy ymgorffori bywyd gwyllt a nodweddion daearegol yn nyluniad datblygiadau newydd
- Gostwng effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy wrthod datblygiadau nad ydynt yn gostwng allyriadau